GOGLEDD POWYS Lles

# Dathlu a Dysgu

Blwyddyn o 'gyflymu i newid' gan Raglen Lles Gogledd Powys

**2021/22**



GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys | Iechyd a Gofal Cymdeithasol | One Powys Yn Un | Powys Regional Partnership Board | Health and Social Care

Powys

# Cyflwyniad

Gweledigaeth hir dymor Rhaglen Lles Gogledd Powys yw "profi a chyflwyno model integredig newydd yng ngogledd Powys yn unol â'r Strategaeth Iechyd a Gofal, ac i gefnogi dysgu a throsglwyddo effeithiol ar draws Powys."

Dan arweiniad Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys - gyda chefnogaeth Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys – o dan ymbarél Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys bydd y prosiect hwn yn mynd i'r afael ag achosion mwyaf afiechydon a lles gwael trwy weithwyr proffesiynol a chymunedau sy'n cydweithio, gan gynnig cymorth cynnar a thechnoleg iechyd i sicrhau bod gan drigolion wasanaeth sy'n fwy ddathliad o lle bo angen.

Mae'r gwaith yn cael ei liwio gan y Model Gofal Integredig a gyhoeddwyd yng nghanol 2021 ac mae modd ei weld ar wefan y Rhaglen ar http://www.powyswellbeing.wales/?lang=cy

Elfen bwysig o'r rhaglen hon yw cynlluniau ar gyfer campws iechyd a lles amlasiantaethol yn y Drenewydd gan y tîm. Bu'r tîm yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned ar gynlluniau cynnar ar gyfer y campws hwn ar ddiwedd 2021. Cafodd Achos Busnes y Rhaglen ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022 ac mae'r Achos Amlinellol Strategol yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar ôl i'r Cabinet a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ei gymeradwyo.

**Mae cynigion ar safle'r campws yn cynnwys:**

- Ysgol newydd i Ysgol Calon y Dderwen (*Mae'r gwaith hwn yn cael ei reoli fel rhan o raglen Trawsnewid Addysg y cyngor ond mae'r ddau dîm yn cydweithio'n agos)
- Cyfleusterau iechyd a gofal;
- Academi Iechyd a Gofal;
- Gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth;
- Tai a llety a gefnogir yn y tymor byr i fyfyrwyr academi a staff locwm;
- Rhannu gofod dan do ac yn awyr agored i'r gymuned.

Yn ogystal â dyheadau hirdymor y rhaglen, mae prosiectau tymor byr hefyd wedi'u hariannu i helpu gwella'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Bwriad y ddogfen hon yw dathlu a dysgu o waith y prosiectau Cyflymu i Newid, yn bennaf:

- Powys Gyda'n Gilydd;
- Bach a Iach;
- Ailgartrefu Plant sy'n Derbyn Gofal:
- Hwyluswyr Digidol;
- Anadlol;
- Offthalmoleg.





# Powys gyda'n Gilydd

Mae Prosiect Powys Gyda'n Gilydd yn brosiect sy'n gweithio gyda chymunedau yn Y Drenewydd, Llanidloes, Machynlleth a'r Trallwng. Cafodd prosiect Powys gyda'n Gilydd ei ariannu gan y Gronfa Gofal Integredig ac mae'n seiliedig ar fodel cenedlaethol Rhoi Plant yn Gyntaf. Ei nod yw cefnogi newid y system yn rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig ym Mhowys. Trwy gyd-gynhyrchu gyda chymunedau, ei nod yw cynyddu cyfleoedd a lleihau anfantais i blant, pobl ifanc a theuluoedd a sicrhau bod lleisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

## Beth y cyflawnwyd yn 2021/22?

Mae tîm Powys gyda'n Gilydd wedi gweithio gyda chymunedau'r pedair tref ac o ddiwedd Mawrth 2022 (chwarter 4), wedi cynnal:

- **214** o gyfarfodydd cymunedol;
- **57** o ddigwyddiadau ymgynghori;
- **130** o ddigwyddiadau cymunedol (megis y sesiwn sglefrfyrddio a gynhaliwyd yn Llanidloes – gweler y llun isod)

Mae'r rhaglen waith hon wedi cefnogi 1463 o blant fel rhan o 958 o deuluoedd. Gofynnwyd i bobl a gymerodd ran yn y digwyddiadau cymunedol am adborth ac roedd 97% o'r ymatebion yn gadarnhaol. Roedd 100% o'r bobl a fynychodd ddigwyddiad yn nodi newid lles cadarnhaol ac roedd 88% o'r cyfranogwyr wedi mynychu mwy nag un digwyddiad.

## Beth mae wedi ei olygu i'n trigolion?

Mae prosiect Powys gyda'n Gilydd wedi golygu y gallwn weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn cymunedau i gyd-gynhyrchu ystod o gyfleoedd a phrofiadau. Gallwn gefnogi'r gymuned i adeiladu ar y cryfderau sydd ganddynt eisoes a nodi bylchau y gallwn weithio arnynt gyda'n gilydd i ddatblygu datrysiadau. Mae'r prosiect am sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc a theuluoedd gael mynediad at ddigwyddiadau, prosiectau a gweithgareddau sy'n gwella lles a meithrin gwydnwch. Mae'r prosiect yn gwella cydlyniant cymunedol ac yn cefnogi newidiadau cadarnhaol.



"Hyfryd yw gallu cefnogi prosiect o'r fath, roedd pawb yn edrych fel ei bod yn cael amser gwych."

"Diwrnod gwych o'r dechrau i'r diwedd. 👏 👏 Diolch o galon i bawb a wnaeth y digwyddiad hwn yn bosib."

"Mae'r ysbryd cymunedol yn wych i'w weld (yng ngŵyl y Bwmpen), diolch i'r holl wirfoddolwyr anhygoel hynny a helpodd i gynnal y digwyddiad awyr agored hwn, gobeithio mai dyma'r cyntaf o lawer."

"Roeddwn i eisiau dweud diolch enfawr i chi a phob un a oedd yn rhan o'r sesiwn sglefrfyrddio. Cafodd fy merch amser bendigedig, fe wellodd ei hyder a'i gallu i gydbwyso o ganlyniad i'r hyfforddiant a dydy hi ddim wedi stopio dweud pa mor "falch yr oedd hi o'i hun". Diolch o galon am wneud hanner tymor yn un ardderchog."

"Mor dda gweld yr holl siopau a busnesau lleol yn cymryd rhan yng Ngŵyl y Bwmpen, a daeth y teuluoedd newydd sydd wedi symud yma, allan yn eu lluoedd i gael croeso cynnes. Roedd plant yr ysgol i gyd yn fendigedig hefyd yn orymdaith y llusern. Roedd y peth yn hudolus!"

"(Mae'r teithiau cerdded bygi) yn ddefnyddiol iawn i mi gan fy mod i'n byw allan o'r dref, felly dyma'r unig gymdeithasu dwi'n gwneud ar hyn o bryd."









## Beth oedd uchafbwynt y tîm?

Mae yna gymaint wedi bod. Mae pob prosiect a digwyddiad yn cael eu cyd gynhyrchu gyda'r gymuned, sy'n golygu bod prosiectau pob ardal yn unigryw i'r ardal leol. Rydym yn gweithio gydag ysgolion, rydym wedi creu celf stryd mewn ystadau, rydym wedi darparu bwyd a gweithgareddau mewn gwyliau ysgol yn ogystal â phartïon stryd a gwyliau haf. Mae'r cyfleoedd ar draws y pedwar maes wedi bod yn aruthrol ac yn gyfan gwbl unigol.

Mae 'Codi Dyheadau' yn brosiect gafodd ei greu beth amser yn ôl i gefnogi plant â'u byd gwaith yn y dyfodol. Mae'r prosiect yn cynnig ystod o brofiadau gwaith rhyngweithiol a chyflwyniadau i wahanol ddiwydiannau gwaith ar gyfer Blwyddyn 6, gyda sgyrsiau gan bobl fusnes ysbrydoledig lleol yng nghymuned y Drenewydd. Cynhaliwyd y prosiect diwethaf yn yr oriel gelf leol ac roedd modd i blant archwilio eu creadigrwydd. Mae eu gwaith bellach yn cael ei arddangos.

## Beth yw'r peth pwysicaf mae eich tîm wedi ei ddysgu?

Bod ymgysylltu a gwrando ar yr hyn mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ei ddweud yn hanfodol i'r prosiect. Rydym wedi dysgu, wrth wrando ar yr hyn y mae cymunedau ei eisiau a chynhyrchu digwyddiadau a gweithgareddau mewn partneriaeth yn sgil hynny, maent yn llwyddo. Mae adeiladu ar gryfderau cymunedau a chydweithio yn cynnig cyfle i rannu cyfrifoldeb sy'n grymuso, yn magu hyder ac yn cefnogi lles ac yn y pen draw newidiadau a chanlyniadau diwylliannol cadarnhaol.

**Jo Hughes**
Rheolwr Comisiynu Plant,
Cyngor Sir Powys

"Braint oedd cefnogi'r bobl ifanc wrth iddynt fynegi eu dychymyg byw, craff a chyffrous trwy gelf weledol. Diolch yn fawr."
(Dylunydd 'Codi Dyheadau)
















# Bach a Iach

## Beth yw hwn?

Mae Gwobr Bach a Iach yn brosiect ym Mhowys yn unig i helpu gwella sgiliau staff cyn ysgol a staff yn yr ysgol mewn amryw o feysydd sy'n gysylltiedig â Gwobr Genedlaethol Ysgolion Iach. Mae Bach a Iach yn credu bod gan bob plentyn yr hawl i gael mynediad at weithgareddau a fydd yn eu helpu i ddatblygu i'w llawn botensial fel unigolion iach a hapus.

Er mwyn helpu sicrhau bod hyn yn digwydd rydym yn rhoi ystod o gyfleoedd hyfforddi, sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau cefnogol i ymarferwyr. Mae'r sesiynau hyfforddi hyn yn cynnwys:

Sgiliau Syrcas, Coginio a Maeth, Cerddoriaeth a Symudiad, Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion megis Dawns a Chwaraeon, Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig, Cyfoeth Naturiol Cymru, Traed Prysur.

## Beth y cyflawnwyd yn 2021/22?

- Mae'r tîm wedi cynnal 46 o sesiynau hyfforddi i fwy na 100 o staff o'r cyfnod cyn-ysgol ac yn ysgolion ym mhob rhan o Bowys;
- Roedd cylchlythyrau'n cael eu dosbarthu er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda'r rhanddeiliaid.
- Rhoddwyd tystysgrifau i'r holl staff ar gyfer pob sesiwn a fynychwyd gan gyfrannu at eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Roedd Llysgenhadon Chwaraeon Efydd o ysgolion Cynradd yn gallu cael rhywfaint o hyfforddiant er mwyn addysgu cyfoedion
- Mae Llysgenhadon Aur o'r ysgol uwchradd hefyd wedi cael yr hyfforddiant yn ddiweddar
- Mae'r holl hyfforddiant wedi'i alinio â'r Cwricwlwm Newydd i Gymru gan helpu athrawon i gynllunio'r hyfforddiant i mewn i'w Cynlluniau Datblygu.

## Beth mae wedi ei olygu i ddefnyddwyr ein gwasanaeth yn y sir

"Bellach mae gennym sesiynau Coginio Creadigol wythnosol yn yr ysgol ar gyfer pob dosbarth yn dilyn y cyrsiau Coginio Gyda'n Gilydd ac roedd yr adnoddau a gawsom o ran offer a llyfrau yn galluogi'r ysgol i gychwyn yn syth. Mae'n rhoi boddhad mawr i wylio'r plant yn datblygu sgiliau coginio a hefyd yn mwynhau bwyta'r bwyd iach maen nhw'n ei wneud.





Yn bwysicaf oll rydym wedi sylwi ar wahaniaeth mewn dyfalbarhad nid yn unig yn ystod y gweithgareddau newydd ond rydym yn gweld effaith ar draws y cwricwlwm gyda'n plant yn dyfalbarhau â heriau mathemateg, heriau corfforol a gwaith creadigol gan eu bod yn datblygu ymdeimlad y gallwch barhau i wella os ydych chi'n parhau i drio."

**Linda Green - Pennaeth Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr**

"Yn bwysicaf oll rydym wedi sylwi ar wahaniaeth mewn dyfalbarhad nid yn unig yn ystod y gweithgareddau newydd ond rydym yn gweld effaith ar draws y cwricwlwm gyda'n plant yn dyfalbarhau â heriau mathemateg, heriau corfforol a gwaith creadigol gan eu bod yn datblygu ymdeimlad y gallwch barhau i wella os ydych chi'n parhau i drio. Linda Green - Pennaeth Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr



Fe wnaeth bob aelod o staff yn ogystal â'n tri myfyriwr presennol cymryd rhan yn yr hyfforddiant Sgiliau Syrcas. Roedd yr hyfforddiant hwn yn gymaint o hwyl, roedd y staff i gyd yn chwerthin ac yn gweithio gyda'i gilydd, roedd hyn yn lle cyfarfod staff ac roedd yn newid a chafodd ei groesawu. Rwy'n tynnu disgyblion am gymorth iechyd a lles bob dydd, mae gan un o ddisgyblion blwyddyn 6 hunanhyder isel, rwy'n gadael i'r disgybl hwn ddewis pethau o'r blwch syrcas yn ystod ein sesiynau. O ganlyniad i hyn, gosododd her ei hun, i droelli platiau ar yr un pryd â phwyso'r plu ar y bwrdd balans! Gofynnodd wedyn i ni fynd yn ôl i'w ddosbarth i ddangos ei gyfoedion, roedd e mor falch!"

**Dee Foster, Athro Cyfnod Sylfaen ac Arweinydd Iechyd a Lles – Ysgol Mynydd y Ddu**

## Beth oedd uchafbwynt y tîm?

"Mae wedi bod yn wych gweld pa mor dda mae Bach a Iach wedi bod. O ganlyniad uniongyrchol i'n hyfforddiant fe wnaeth un ysgol gael gafael ar arian gan Gyngor y Celfyddydau i benodi arlunydd yn fewnol, sydd wedi bod yn brosiect mawr ei angen. Eu nod yw gwneud rhywfaint o waith dilynol ar y cwricwlwm hefyd. Mae chwech o ysgolion eraill wedi trefnu bod un o'n hyfforddwyr yn mynd i mewn i'r ysgol hefyd i weithio gyda'r plant. Sarah Power, Swyddog Cyn-Ysgolion Iach, Bach a Iach"

**Sarah Power, Swyddog Cyn-Ysgolion Iach, Bach a Iach**

## Beth yw'r peth pwysicaf mae eich tîm wedi ei ddysgu?

"Mae'n anodd iawn nodi dim ond un peth pwysig. Isod mae'r rhai rydw i'n meddwl sy'n bwysig.



- Rhaid bod yn addasadwy ac yn hyblyg;
- Rhaid cynnig dewisiadau amgen;
- Mae adnoddau dilynol yn hanfodol;
- Mae cyfathrebu yn allweddol;
- Mae hyfforddiant rhithwir wedi ein galluogi i gael mynediad at gymaint mwy o staff a dylid adeiladu ar hyn;
- Mae atebion wedi'u targedu at ysgolion yn gwella ymgysylltu."

**Sarah Power,**
**Swyddog Cyn-Ysgolion Iach Powys, Bach a Iach**



# Ailgartrefu Plant sy'n Derbyn Gofal

## Beth yw hwn?

Mae fframwaith strategol Plant Sy'n Derbyn Gofal ym Mhowys yn cynnwys strategaethau i ddychwelyd plant i ddarpariaeth fwy lleol a nodi cyfleoedd i atal plant rhag cael eu gosod y tu allan i'r dalgylch. Cafodd y prosiect Ailgartrefu Plant sy'n Derbyn Gofal ei lansio yn hydref 2019, ar ôl sicrhau cyllid o Gyllid Trawsnewid Llywodraeth Cymru drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol/Rhaglen Lles Gogledd Powys. Nod y prosiect oedd gwella'r canlyniadau, a lleihau'r anghydraddoldebau Plant sy'n Derbyn Gofal drwy gyflymu sawl rhaglen waith bresennol i ehangu'r capasiti ar leoliad yn y sir yng Ngogledd Powys ac i gefnogi plant wrth iddynt ddychwelyd i'r ardal. Mae llawer o'r plant sydd wedi'u lleoli allan o'r Sir yn cael eu rhoi naill ai mewn Lleoliadau'r Asiantaeth Maethu Annibynnol (IFA) neu leoliadau preswyl allanol.

Bu sgôp y prosiect yn 2021/22 yn canolbwyntio ar 4 thema:

- Creu a datblygu capasiti maethu mewnol ychwanegol
- Sefydlu darpariaeth byw a phreswylio yn rhannol annibynnol, gan ganiatáu i blant a phobl ifanc sy'n cael eu gosod y tu allan i Bowys i ddychwelyd i'w hawdurdod cartref.
- Mwy o adnoddau i'r Tîm Lleoli.
- Creu a datblygu capasiti llety ychwanegol gyda chefnogaeth gan naill ai Asiantaeth Faethu Annibynnol (IFA) Lleoliadau neu leoliadau preswyl allanol.



Dathlu a Dysgu
GOGLEDD POWYS Lles

## Beth y cyflawnwyd yn 2021/22?

- Cynnydd yn nifer y gofalwyr maeth cymeradwy yng ngogledd Powys i 34;
- 21 o ymholiadau a dderbyniwyd ar gyfer llety â chymorth;
- 22 lleoliad camu i lawr a gyflawnwyd yng ngogledd y sir;
- Rheolwr Preswyl Parhaol wedi'i benodi ar gyfer cartref preswyl i blant;
- Cynllunio i brynu eiddo ar gyfer preswyl yn parhau;
- Recriwtio staff cartrefi gofal yn parhau;
- Nifer o ymdrechion i recriwtio i rôl CAMHS yn profi'n aflwyddiannus gydag ymateb cyfyngedig;
- Sicrhau cyllid i'r dyfodol ar gyfer cydlynydd Byw â Chymorth.

## Beth mae wedi ei olygu i'n trigolion?

Mae'r prosiect wedi golygu ein bod wedi gallu gosod plant mor agos i'w cartref â phosib yng Ngogledd Powys. Mae wedi golygu bod plant mewn gofal wedi gallu byw o fewn eu cymunedau, cadw perthnasoedd a pharhau i fynychu'r ysgol. Nid yw'r plant wedi gorfod symud cannoedd o filltiroedd i ffwrdd o Bowys i gael lleoliad sy'n cwrdd â'u hanghenion a chafwyd eu paru â lleoliad yng ngogledd Powys. Yr agosaf at adref mae plentyn mewn gofal yn cael ei roi, y gwell oll yw ei ganlyniadau.

## Beth oedd uchafbwynt y tîm?

Gallu cryfhau'r tîm Lleoliad gydag adnoddau ychwanegol. Mae'r tîm Lleoliad yn gweithio'n ddi-dor i ddod o hyd i'r lleoliadau cywir ar gyfer plant. Mae'r prosiect wedi ein galluogi i gynyddu capasiti lleoli ym Mhowys a gwella adnoddau'r timau wrth weithio gyda darparwyr i ddod o hyd i leoliadau yn y Sir. Rydym wedi gallu symud plant a oedd wedi eu lleoli y tu allan i'r sir yn flaenorol yn ôl i ogledd Powys gan eu galluogi i gael gafael ar gymorth lleol, gwasanaethau a rhwydweithiau teuluoedd lle bo hynny'n briodol. Rydym wedi llwyddo i ddenu aelodau rhagorol, gweithgar o'r tîm Lleoliad sydd wedi integreiddio â'r tîm ac wedi meithrin sgiliau a gwybodaeth newydd yn gyflym iawn. Mae eu hymrwymiad yn gymeradwy ac mae'r gwaith maen nhw'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant Powys.

## Beth yw'r peth pwysicaf mae eich tîm wedi ei ddysgu?

Mae cydberthnasau yn allweddol. Mae'r prosiect wedi ein galluogi i gynyddu capasiti o fewn y tîm gan ganiatáu amser a gofod i ni weithio ar adeiladu a chynnal perthnasoedd. Gwneir hyn gyda chydweithwyr yn fewnol ym maes Cyfathrebu a Maethu ond hefyd gyda darparwyr allanol. Mae'r amser a'r ymdrech a neilltuwyd i adeiladu'r perthnasoedd gwaith hyn wedi talu ar ei ganfed ac rydym wedi llwyddo i weithio gyda darparwr allanol i ddatblygu 3 lleoliad ar gyfer plant ym maes Gofal Powys ac wedi galluogi'r plant hyn i aros a dychwelyd i ogledd Powys. Mae llwyddiant ein hymgyrchoedd Maethu a Llety â Chymorth wedi bod o ganlyniad i ddull cydgysylltiedig fel rhan o dîm, gan gydweithio i ddatblygu lleoliadau mor agos at eu cartref â phosibl ar gyfer plant Powys.

**Jo Harris, Uwch Reolwr Comisiynu Strategol - Dechrau'n Dda, Cyngor Sir Powys**

# Hwyluswyr Digidol



## Beth yw hwn?

Gan ddefnyddio cyllid gan Raglen Lles Gogledd Powys (NPWB), mae dau Hwylusydd Digidol wedi cael eu penodi i gynnig cyngor a chefnogaeth i'r bobl hynny sydd angen cymorth i fynychu apwyntiadau fideo ar-lein, gan ddefnyddio'r system Attend Anywhere neu Microsoft Teams.

Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig drwy ddefnyddio system fideo ar-lein ar hyn o bryd yn cynnwys seicoleg, ffisiotherapi, rheoli poen a rhoi'r gorau i ysmygu er bod gwasanaethau eraill yn cael eu hychwanegu'n rheolaidd.

O fewn y gwasanaethau y mae'r tîm yn eu cefnogi, rydym wedi gweld y ganran o apwyntiadau a fethwyd yn gostwng o tua 20% i lawr i tua 3%.

Roedd disgwyl y byddai'r tîm yn cefnogi demograffeg hŷn nad oedd mor gyfforddus â thechnoleg ar-lein ond yn aml maen nhw'n gweithio gyda phobl iau sydd, yn syml, heb fynediad i'r offer sydd ei angen arnynt. Yn ogystal â'r gwaith gyda'r tîm Rhaglen Lles Gogledd Powys, mae'r hwyluswyr hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Powys i gynnig mwy o gymorth yn y maes hwn.

Gallwch ddefnyddio'r systemau fideo hyn ar y rhan fwyaf o gyfrifiaduron tabled, ffonau clyfar, cyfrifiaduron a gliniaduron sydd â rhyw fath o gamera. Cynigir cymorth yr Hwyluswyr Digidol i gleifion wrth i staff iechyd drefnu apwyntiadau ar eu cyfer, er bod y bwrdd iechyd yn cydnabod bod apwyntiad wyneb yn wyneb, ar gyfer rhai pobl, yn fwy priodol.

## Beth y cyflawnwyd yn 2021/22?

- **Cafodd 159 o gleifion y cynnig am gefnogaeth ddigidol gyda 134 o gleifion yn derbyn sesiynau cymorth digidol erbyn diwedd chwarter pedwar.**
- **Roedd 100% o bobl sy'n derbyn sesiynau cymorth digidol yn rhoi sgôr o 4 seren iddyn nhw neu fwy - sy'n fwy na'r targed o 95%.**

## Beth mae wedi ei olygu i'n trigolion?

"Doeddwn i erioed wedi ei ddefnyddio o'r blaen ac roeddwn i'n hynod bryderus ac yn ddryslyd. Roedden nhw'n hynod ddefnyddiol ac mor garedig heb wneud i mi deimlo'n israddol. Rhoddodd hwb i fy hyder a gyda'n gilydd fe ddatryson yr holl faterion roeddwn i'n eu cael."



"Mor ddefnyddiol a dwi'n teimlo fy mod i wedi dysgu rhywbeth. Roedden nhw mor garedig ac amyneddgar gyda fi."

"Doeddwn i erioed wedi defnyddio Teams o'r blaen a doeddwn i ddim yn siŵr sut. Fe wnaeth Kerri fy arwain i'r trwy'r peth yn hawdd."

"Sesiwn ardderchog, gwych i gael cyfle i'w brofi a gwirio'r cyfan ymlaen llaw. Roedd Charles yn gyfeillgar a chymwynasgar iawn a doedd o ddim yn fy rhuthro o gwbl."

"Er nad oeddwn i'n gallu defnyddio Teams, roedd Jon mor ddefnyddiol a threfnodd i mi fenthyg dyfais o'r llyfrgell."

## Beth oedd uchafbwynt y tîm?

"Y gallu i helpu pobl o gefndiroedd amrywiol i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd a lles hanfodol sydd eu hangen arnynt, wrth ganiatáu i wasanaethau barhau i redeg yn ddidrafferth. Mae dros 260 o Sesiynau Cymorth Digidol wedi'u cynnal ac mae hyn wedi galluogi mwy na 150 o bobl, gan roi mynediad iddyn nhw i'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ar amser mewn lle sy'n gyfleus iddyn nhw."

## Beth yw'r peth pwysicaf mae eich tîm wedi ei ddysgu?

"Peidiwch byth â chymryd pethau'n ganiataol! Rydym wedi cael llwyddiant sylweddol wrth helpu pobl sydd wedi cael ychydig neu ddim profiad o gyfarfodydd dros fideo. Cadwch feddwl agored a gadewch i'r unigolyn ddysgu ar ei gyflymder ei hun. Mae amynedd a hiwmor da yn creu perthynas â'r unigolyn ac yn creu'r amgylchedd iawn i helpu pobl i drio rhywbeth newydd.

Gallwn gyflawni cymaint mwy wrth weithio gyda'n gilydd – bu'n wych gweithio gyda chymaint o wasanaethau ar draws BIAP, ond hefyd gyda phartneriaid yng Ngwasanaeth Llyfrgell Cyngor Sir Powys a PAVO i allu cynnig cefnogaeth o fewn y gymuned. Mae'r holl wasanaethau a sefydliadau dan sylw wedi cyflwyno cryfderau eu hunain a gyda'n gilydd rydym wedi sefydlu partneriaethau a phrosesau a fydd yn parhau i gefnogi pobl ymhell ar ôl i'r prosiect hwn orffen."

**Tim Smith, Hwylusydd Digido Arweiniol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

# Anadlol

## Beth yw hwn?

Mae'r gwaith anadlol hwn yn cynnwys tair elfen:

- Gwasanaeth Sbirometreg gyrru drwodd;
- Offer Diagnostig Apnoea Cwsg i Oedolion;
- Tîm Amlddisgyblaethol Anadlol Gogledd Orllewin a Chanolbarth Powys

## Sbirometreg Gyrru drwodd

Mae sbirometreg yn mesur faint o aer y gallwch ei anadlu allan mewn un anadl ac yn helpu gwneud diagnosis o rai cyflyrau anadlol. Nod rhan Cymorth Sbirometreg y prosiect oedd mynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol o gleifion Powys sy'n aros am sbirometreg. Mae'r prosiect wedi:

- cynnal clinigau sbirometreg gyrru drwodd a ddarperir gan glinigwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol;
- perfformio sbirometreg ar gyfer cleifion sydd wedi'u harchebu ymlaen llaw a dosbarthu copi o'r canlyniadau a'r dehongliad yn ôl i'r clinigwr sy'n gofyn amdano.



## Offer Diagnostig Apnoea Cwsg i Oedolion

Rhoddodd yr elfen hon o'r prosiect yr offer i alluogi cleifion ym Mhowys sy'n disgwyl cael diagnosis o apnoea cwsg i oedolion y tu hwnt i amseroedd atgyfeiriad am driniaeth y tu allan i'r sir, i gael diagnosis ym Mhowys.

## Tîm Amlddisgyblaethol Anadlol Gogledd Orllewin a Chanolbarth Powys

Adeiladodd y prosiect hwn ar y dull llwyddiannus presennol gan Dîm Amlddisgyblaethol y Tîm Anadlol Gogledd-ddwyrain Powys i ddatblygu Rheolwr Gyfarwyddwr y Gogledd Orllewin a Chanolbarth Powys ar gyfer derbyn ac osgoi cyfeirio. Nod y prosiect hwn oedd:

- Sefydlu tîm anadlol amlddisgyblaethol yng ngogledd orllewin a chanolbarth Powys yn seiliedig ar y Tîm Amlddisgyblaethol presennol wedi'i leoli yng ngogledd-ddwyrain Powys;
- Darparu mwy o driniaeth a chefnogaeth ym Mhowys, gan leihau nifer y cleifion sy'n cael eu cyfeirio am driniaeth y tu allan i'r sir;
- Galluogi'r gwaith o gwblhau'r adolygiadau ocsigen yn y cartref ar gyfer Gogledd Orllewin a Chanolbarth Powys;
- Lleihau nifer y derbyniadau i ysbytai cyffredinol dosbarth y tu allan i Bowys drwy ddarparu cefnogaeth well, yn seiliedig ar dystiolaeth i gleifion;

## Beth y cyflawnwyd yn 2021/22?

Sbirometreg - drwy waith y tîm wrth ddarparu gwasanaeth gyrru drwodd, mae nifer y cleifion sy'n aros am sbirometreg wedi lleihau'n sylweddol.





Roedd y cynllun peilot gyrru drwodd hefyd yn gymorth wrth i ni ddatblygu cynllun mwy hirdymor ar gyfer sbirometreg ym Mhowys.

## Apnoea cwsg – prynwyd offer a dechreuodd clinigau ar ddiwedd 2021

Tîm Amlddisgyblaethol Anadlol Gogledd Orllewin a Chanolbarth Powys - er gwaethaf rhai heriau wrth benodi i rai swyddi, cafodd y tîm ei llenwi'n llwyddiannus ddiwedd 2021 ac mae bellach yn weithredol.

## Beth mae wedi ei olygu i'n trigolion?

Gofynnon ni i gleifion oedd wedi cael mynediad i'r gwasanaeth apnoea cwsg - a oedd yn cael ei reoli gan Kim Lewis beth oedden nhw'n ei feddwl o'r gwasanaeth newydd.

## Claf A:

“Roeddwn i'n meddwl bod y wybodaeth a roddwyd drwy ddolen rithwir yn dda iawn – roedd hi'n teimlo'n union fel apwyntiad wyneb yn wyneb. Teimlais roedd yr offer yn hawdd i'w gasglu ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Roedd y gwaith papur yn dda ac yn hawdd i'w gwblhau – addysgiadol iawn, hefyd roedd gwybodaeth a roddwyd dros y ffôn yn glir. Roedd y gwasanaeth yn hawdd cysylltu ag ac roedd yn hawdd delio gyda'r staff.”

## Claf B:

“Roedd eich proses yn llawer gwell nag apwyntiad wyneb yn wyneb, gan nad oedd yn rhaid i mi gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith. Roedd rhai problemau gyda'r cysylltiad ar y dechrau, ond cafodd hynny ei ddatrys yn hawdd. Roedd yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn ddefnyddiol ac yn glir iawn. Teimlais ei bod yn hawdd iawn dychwelyd popeth atoch. Hoffais y ffaith roeddwn yn gallu gwneud y prawf o gartref. Hoffwn ychwanegu fy mod yn teimlo bod eich gwasanaeth a'r staff yn addysgiadol iawn ac yn ddefnyddiol a doedd dim byd yn ormod o drafferth.”

## Beth oedd uchafbwynt y tîm?

Yr uchafbwynt ydy'r adborth gan y cleifion. Fel y mae'r dyfyniadau gan y cleifion apnoea cwsg yn dangos, cafwyd adborth cadarnhaol hefyd gan y cleifion a defnyddiol y gwasanaeth peilot sbirometreg gyrru drwodd. Roedden ni'n gwybod ein bod ni'n rhedeg y peilot sbirometreg yn ystod diwedd y gaeaf, sy'n gyfnod anodd i unrhyw un allai fod â salwch anadlol, golygwyd hefyd roedd rhaid i'n staff delio â phob tywydd (weithiau tri thymor mewn un diwrnod!). Mae profiad y cleifion a adroddwyd yn helpu dangos bod cleifion yn gwerthfawrogi cael diagnosteg gywir yn nes at adref yn lle aros yn hirach ac yna teithio pellter llawer hirach.

## Beth yw'r peth pwysicaf mae eich tîm wedi ei ddysgu?

Nodwyd yn gynnar mai ein risg fwyaf fyddai recriwtio i swyddi'r Tîm Aml-Ddisgyblaeth oherwydd bod pandemig COVID-19 wedi gwneud swyddi anadlol yn gystadleuol iawn. Mae wedi bod yn heriol recriwtio i rai swyddi, ond yn aml amseru sy'n bwysig a hysbysebu mor eang â phosibl. Yn y diwedd, buom recriwtio i bob swydd heblaw'r mewnbwn meddygol, er bod swyddi gwag i feddygon anadlol yn parhau'n uchel ac mae hyn yn effeithio ar ymgynghorwyr anadlol presennol sy'n darparu'r mewnbwn yr hoffem – rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar hyn.

**John Morgan, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid (Anadlu'n Dda), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**




# Offthalmoleg

## Beth yw hwn?

Disgwylir i'r galw am wasanaethau gofal llygaid dros yr 20 mlynedd nesaf gynyddu'n sylweddol: 16% ar gyfer cyflyrau fel glawcoma; 47% ar gyfer dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint (AMD); 50% ar gyfer cyflyrau fel cataractau, ac mor uchel ag 80% ar gyfer retinopathi diabetig. Adeg cychwyn y prosiect, cynhaliwyd yr holl driniaethau ac archwiliadau i gleifion Powys mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth y tu allan i Bowys. Fe wnaeth ymgynghorwyr gwadd gynnig gwasanaeth ymgynghori yn adrannau llawdriniaeth Gogledd Powys yn y Trallwng, Machynlleth, a Llanidloes. Doedd dim gwasanaeth yn y Drenewydd.

Bwriad y prosiect hwn oedd datblygu Gwasanaeth Gofal Llygaid amlddisgyblaethol ar gyfer Gogledd Powys, gan adeiladu sylfeini Gwasanaeth Gofal Llygaid yng Ngogledd Powys sy'n addas ar gyfer y dyfodol drwy ail-lunio gwasanaethau gofal llygaid gan gynnwys cataractau, glawcoma ac AMD gwlyb. Drwy hyfforddi gweithlu Tîm Amlddisgyblaethol Gofal Llygaid medrus, byddai'n gwneud gwell defnydd o adnoddau offthalmoleg ymgynghorol mewngymorth ac ail ddosbarthu'r galw am wasanaethau offthalmoleg.

Nod y prosiect hefyd oedd prynu pedair lamp slit a Sganiwr Tomograffeg Optegol (OCT), er mwyn caniatáu i waith sy'n cael ei arwain gan nyrsys/ymarferwyr gwyddonol / optometreg, law yn llaw ag ymgynghorydd ac archwiliad llygaid gwell, gael ei gynnal yn y sir.





## Beth y cyflawnwyd yn 2021/22?

- Heb os, bodlonwyd y targed i ddarparu 50 o apwyntiadau a fyddai fel arall yn cael eu darparu allan o'r sir, gyda 73 yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd chwarter pedwar.
- Dechreuwyd sgrinio yn chwarter tri yn Llanidloes, ac yn y Trallwng yn chwarter pedwar - fel arfer byddai apwyntiadau wedi cael eu cynnal allan o'r sir.

## Beth mae wedi ei olygu i'n trigolion?

“Mae cleifion yn falch iawn o gael y gwasanaeth hwn o fewn Gogledd Powys heb yr angen i deithio ar gyfer amryw o apwyntiadau i Ysbytai Cyffredinol Dosbarth y tu allan i'r sir.

Roedd claf a chafodd llawdriniaeth cataract tu allan o'r sir yn ddiweddar yn gallu defnyddio'r gwasanaeth lleol am gyngor am y gostyngiad sydyn yn ei olwg. Cafodd y diagnosis ei gadarnhau drwy'r sgan digidol mewn clinig ym Mhowys ac fe gafodd y claf ddechrau ar driniaeth yn syth heb fod angen teithio allan o'r sir.”

## Beth oedd uchafbwynt y tîm?

“Cynnig gwasanaeth gofal llygaid i Ogledd Powys er mwyn gwella'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau cleifion allanol yn y sir, gyda staff arbenigol newydd, hyfforddiant a sgiliau ychwanegol ar gyfer staff presennol a chyfarpar sganio llygaid digidol 3D newydd.”

## Beth yw'r peth pwysicaf mae eich tîm wedi ei ddysgu?

“Cyflwynwyd cyfle i gyrraedd aelodaeth ehangach na'r tîm amlddisgyblaethol traddodiadol mewn cleifion allanol a'r buddion a ddaeth i'r tîm a phrofiad y claf drwy recriwtio gwyddonydd gofal iechyd cyntaf y bwrdd iechyd ar gyfer gofal llygaid. Mae staff gwyddor gofal iechyd yn chwarae rhan hanfodol wrth atal, gwneud diagnosis a thrin nifer enfawr o gyflyrau gofal llygaid. Mae'r swydd wedi dod â chyfoeth o brofiad a safbwynt newydd i ofal llygaid y mae'r tîm wedi'i ddefnyddio a bydd yn parhau i ddefnyddio i ddatblygu'r gwasanaeth gofal llygaid gan sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Mae rôl gwyddonydd gofal iechyd yn rhywbeth y mae'r tîm yn awyddus i ddatblygu, ynghyd â'r Academi Iechyd a Gofal ym Mhowys, wrth ddylunio llwybrau gyrfa lleol ar gyfer y swyddi hyn.”

**Nicola Kelly – Uwch Reolwr, Gofal Wedi ei Gynllunio, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Dyluniwyd ac Argraffwyd gan Dîm Ymgysylltu a Chyfathrebu BIAP Awst 2022

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys Iechyd a Gofal Cymdeithasol One Powys Yn Un Powys Regional Partnership Board Health and Social Care

Powys







# GOGLEDD POWYS Lles

Dyluniwyd ac Argraffwyd gan Dîm Ymgysylltu a Chyfathrebu BIAP Awst 2022





